# Goruchaf Lys y DU i eistedd yng Nghymru yn yr haf

Bydd Goruchaf Lys y DU yn eistedd yng Nghaerdydd, Cymru, am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2019.

Bydd y Llys yn eistedd yn adeilad Tŷ Hywel y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd am bedwar diwrnod o wrandawiadau rhwng 22 a 25 Gorffennaf 2019, tra bod y Cynulliad ar gyfnod o doriad.

Bydd y Fonesig Hale, Llywydd y Goruchaf Lys, yn llywyddu'r achosion a bydd y Dirprwy Lywydd, yr Arglwydd Reed, yn ymuno â hi, yn ogystal â'r Arglwydd Lloyd-Jones, yr Arglwydd Sales a'r Arglwydd Thomas o Gwmgiedd (cyn-Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr sy'n aelod o banel atodol y Goruchaf Lys).

Eisteddodd y Goruchaf Lys yn flaenorol yn yr Alban yn 2017 ac yng Ngogledd Iwerddon yn 2018. Mae teithio i rannau eraill o'r DU bellach yn rhan sefydledig o galendr y Llys ac fe'i hystyrir yn ffordd allweddol o hyrwyddo mynediad at lys uchaf y DU.

Wrth siarad am yr ymweliad, dywedodd y Fonesig Hale: "Wrth inni ddathlu Dydd Gŵyl Dewi heddiw, rwy'n falch iawn o gyhoeddi y bydd y Goruchaf Lys yn eistedd yng Nghaerdydd yn yr haf. Mae hyn yn golygu y byddwn ni wedi eistedd ym mhob un o bedair rhan y Deyrnas Unedig.

Byddwn yn clywed tri achos diddorol iawn yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn gyfle ardderchog i'r rhai sy'n byw'n lleol i ddod i weld y Goruchaf Lys ar waith ac i wylio achosion o bwysigrwydd mawr yn cael eu trafod. Yn ôl yr arfer, bydd yr achosion hefyd yn cael eu darlledu'n fyw fel y gall eraill wylio hefyd.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Goruchaf Lys ac rydym oll yn edrych ymlaen at eistedd yng Nghymru yn yr haf."

## Rhestrau dros dro ar gyfer sesiynau'r Goruchaf Lys yng Nghaerdydd (amseroedd i'w cadarnhau):

- **Dydd Llun 22 Gorffennaf a dydd Mawrth 23 Gorffennaf 2019:**

  **R (ar gais Wright) (Ymatebydd) v Resilient Energy Severndale Ltd (Apelydd), UKSC 2018/0007**

  Y cwestiwn yn yr achos cynllunio hwn yw p'un a yw, ar gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer tyrbin gwynt y bwriedir ei godi gan gymdeithas budd cymunedol, y dosbarthiad i'r gymuned leol o gronfa budd cymunedol sy'n deillio o weithrediad y tyrbin yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y gallai'r cyngor roi ystyriaeth iddo wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

- **Dydd Mawrth 23 a dydd Mercher 24 Gorffennaf 2019:**

  **Singularis Holdings Ltd (Mewn Methdaliad Swyddogol) (Cwmni Corfforedig yn Ynysoedd Cayman) (Ymatebydd) v Daiwa Capital Markets Europe Ltd (Apelydd), UKSC 2018/0039**

  Y cwestiynau yn yr achos hwn yw p'un a ellir priodoli cyflwr meddwl anonest unigolyn sy'n rheoli ac yn berchen ar gwmni yn gyfan gwbl i'r cwmni yng nghyd-destun hawliad mewn esgeulustod gan y cwmni yn erbyn banc neu frocer trydydd parti ac, os felly, pa amddiffyniadau sydd ar gael i'r banc neu'r brocer o ganlyniad i'r priodoli hwn.

- **Dydd Iau 25 Gorffennaf 2019:**

  **Edwards ar ran Ystâd y diweddar Arthur Watkins (Ymatebydd) v Cyfreithwyr Hugh James Ford Simey (Apelydd), UKSC 2018/0132**

  Y cwestiynau yn achos esgeulustod y cyfreithwyr yw o dan ba amgylchiadau y mae'r egwyddor o iawndal llawn yn berthnasol ac i ba raddau y dylai llys dderbyn tystiolaeth a gafwyd ar ôl y dyddiad y setlwyd yr hawliad gwreiddiol, wrth benderfynu a yw'r hawlydd wedi dioddef colled?

**Caiff manylion am sut y gall y cyhoedd fynychu'r gwrandawiadau achos eu rhyddhau yn nes at yr amser.**

**DIWEDD**

**Nodiadau i Olygyddion**

1. Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â:

   Janet Coull-Trisic, Pennaeth Cyfathrebu
   020 7960 1887 | Janet.Coull-Trisic@supremecourt.uk

   Rebecca Lowson, Rheolwr y Cyfryngau a Chyfathrebu
   0207 960 1894 | rebecca.lowson@supremecourt.uk

2. Bydd cyfleoedd i'r cyfryngau fynychu'r gwrandawiadau pan fydd y Goruchaf Lys yn eistedd yng Nghaerdydd a byddwn hefyd yn gallu rhannu lluniau o'r achlysur. Bydd mwy o fanylion am sut i fynychu yn cael eu cadarnhau yn nes at yr amser, ond os hoffech gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â Janet neu Rebecca (manylion uchod).

3. Mae'r Fonesig Hale ac Arglwydd Lloyd-Jones wedi recordio neges fideo bersonol yn cyhoeddi'r ymweliad a fydd ar gael ar y Linc YouTube yma.

4. Ar gyfer lluniau o'r Ynadon a fydd yn eistedd yng Nghaerdydd, cysylltwch â Janet neu Rebecca. Mae croeso i'r cyfryngau ddefnyddio'r lluniau hyn yn rhad ac am ddim, ond gofynnir iddynt yn garedig roi cydnabyddiaeth i'r sawl a fanylir yn enwau ffeiliau'r lluniau.

5. Caiff yr achosion a glywir yng Nghaerdydd eu darlledu'n fyw ar wefan y Goruchaf Lys, a byddant at gael 'ar alw'.